Ysgol y Preseli

Pennaeth:
M. L. DAVIES, B.A.
Headteacher

Crymych - Sir Benfro SA41 3QH
Ffôn/*Tel.:* Crymych (01239) 831406 - Ffacs/*Fax:* Crymych (01239) 831416
E-bost/*E-mail:* swyddfa@ysgolypreseli.com - Cyfeiriad gwefan/*Web:* www.ysgolypreseli.com

Eich Cyf./*Your Ref.:*

Gofynner am/*Please ask for:*

Ionawr, 2012

Annwyl Rieni,

Cyfarfod pwysig i rieni disgyblion Blwyddyn 11
Nos Iau, Ionawr 26, 2012 o 4.00 hyd 6.30 o'r gloch

Mae llwyddiant mewn arholiadau allanol yn bwysig o ran gwneud ceisiadau am swyddi neu ar gyfer astudio cyrsiau galwedigaethol academaidd Safon Uwch. Mae cystadleuaeth fawr am swyddi a chyrsiau ac felly mae cyflogwyr a cholegau yn medru dewis a dethol cyn penderfynu pwy i'w derbyn.

Rhaid gweithio'n galed ac adolygu'n gyson er mwyn llwyddo mewn arholiadau. Gofynnwn am eich cydweithrediad i sicrhau bod eich plant yn gweithio'n galed. Dylent weithio o leiaf dair awr pob nos yn ogystal â nifer o oriau ar y penwythnosau o nawr tan ddiwedd yr arholiadau allanol ym mis Mehefin.

Os nad oes cyfleusterau priodol ar gael i'ch plentyn i astudio gartref rhowch wybod i mi. Gallaf wneud trefniadau i'ch plant aros ar ôl diwedd y dydd am awr neu ddwy awr i fwrw ymlaen a'u gwaith cartref/adolygu.

Os nad yw disgybl yn gwneud ymdrech deg mewn pwnc ni fydd y disgybl yn cael sefyll yr arholiad allanol yn y pwnc hwnnw. Mae'n ddyletswydd arnom i wario arian cyhoeddus yn ddoeth (codir £26.88 am **bob pwnc TGAU**) ac felly ni fyddwn yn caniatau i ddisgyblion sefyll arholiadau cyhoeddus oni bai eu bod wedi llwyddo i argyhoeddi'r athrawon pwnc fod ganddynt siawns resymol o lwyddo.

Mae'n bwysig iawn bod disgyblion yn cwblhau'r gwaith cwrs a osodir yn yr amrywiol bynciau. Mae marciau'r gwaith cwrs yn cyfrannu tuag at y canlyniadau terfynol yn y gwahanol bynciau. Rhaid i ddisgyblion gwblhau eu gwaith cwrs erbyn dyddiadau penodol. Mae'n amhosib llwyddo mewn pwnc oni bai bod yr holl waith cwrs wedi ei orffen.

A fyddwch mor garedig â darllen yn ofalus sylwadau'r athrawon yn y gwahanol bynciau. Gofynnwn am eich cydweithrediad i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd ei (g)wir botensial. Mae'n hanfodol bwysig bod cydweithrediad a dealltwriaeth rhwng disgyblion, rhieni ac athrawon.

'Rwyn mawr obeithio y byddwch yn bresennol yn y cyfarfod rhieni er mwyn trin a thrafod cynnydd eich plentyn. Mae'n ddyletswydd arnoch i fod yn bresennol er mwyn cefnogi eich plentyn. Byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn medru dod yn gynnar. Pan ddaw nifer o rieni'n hwyr i'r cyfarfod y mae'n golygu fod aelodau gweithgar y staff yn cael eu cadw am oriau afresymol ar ôl diwrnod caled o waith. Gwerthfawrogir eich cydweithrediad gan aelodau'r staff. Mae croeso i chi ddod a'ch mab/merch gyda chi ond **rhaid i bob disgybl ddod i'r cyfarfod mewn gwisg ysgol.**

Os na fedrwch fod yn bresennol a fyddech cystal a ffonio'r ysgol, 01239831406, i drefnu amser cyfleus i gwrdd ag aelodau'r staff.

Yr eiddoch yn gywir,

M. L. Davies

Pennaeth

BUDDSODDWR MEWN POBL

Ysgol y Preseli

Pennaeth:
M. L. DAVIES, B.A.
Headteacher

Crymych - Sir Benfro SA41 3QH
Ffôn/*Tel.:* Crymych (01239) 831406 - Ffacs/*Fax:* Crymych (01239) 831416
E-bost/*E-mail:* swyddfa@ysgolypreseli.com - Cyfeiriad gwefan/*Web:* www.ysgolypreseli.com

Eich Cyf./*Your Ref.:*

Gofynner am/*Please ask for:*

January, 2012

Dear Parents,

Important meeting for parents of year 11
Thursday evening, January 26, 2012 between 4.00 and 6.30p.m.

Success in external examinations is important when making employment applications or for further study in academic vocational courses at A level. The competition for jobs and courses is great, therefore employers and colleges can be selective when choosing who to accept.

In order to succeed in examinations a pupil must work hard and revise constantly. We ask for your co-operation to ensure that your child works diligently. He/she should work for at least three hours every night as well as a number of hours during the weekend from now until the end of the external examinations in June.

If there aren't suitable circumstances for the child to study at home please let me know. I can make arrangements for your child to stay behind for an hour or two to do their homework/revision.

If a pupil does not make a fair attempt in a subject, that pupil will not be allowed to sit the external examination in that subject. It is our responsibility to spend public money wisely. A fee of £26.88 is levied for every GCSE subject; therefore we will not allow pupils to sit public examinations if they have not convinced their subject teachers that they have a reasonable chance of success.

It is very important that pupils complete the coursework that is set in the various subjects. The coursework marks contribute towards the final result in the different subjects. Pupils must complete their coursework by the final dates set.

Will you please read carefully the comments of members of staff on your child's report. We ask for your co-operation to ensure that your child reaches his/her full potential. It is essential that there is co-operation and understanding between pupils, parents and members of staff.

I hope that you will be able to attend the parents meeting in order to discuss your child's progress. It is your duty to attend in order to support your child. I would be very grateful if you could arrive early. When a large number of parents arrive late in the evening it means that members of staff are detained for an unreasonable number of hours after a full day's work. Your co-operation will be appreciated by members of staff. You are welcome to bring your son/daughter with you but **all pupils must attend in school uniform.**

If you are unable to attend please telephone the school, on 01239 831406, so that arrangements can be made for you to see members of staff at a mutually convenient time.

Yours sincerely,

M. L. Davies

Headteacher

The Basic Skills Agency – Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

BUDDSODDWR MEWN POBL